Cynghorion defnyddiol i adneuwyr

Cysylltwch â ni cyn adneuo dogfennau fel y byddwn yn barod i'ch disgwyl, y gwaith papur wedi ei baratoi, a gallwn sicrhau fod aelod o staff ar gael i gwrdd â chi.

Wrth baratoi dogfennau i'w trosglwyddo i'r archifau, gallai fod yn demtasiwn eu rhoi mewn amlenni plastig neu '*polly pockets'*, eu labelu â sticeri, neu ddefnyddio stwffylwr, bandiau elastig neu dâp gludiog i gadw'r eitemau ynghyd. Efallai fod hyn yn ymddangos yn ddefnyddiol, ond gall y pethau hyn oll ddifrodi'r dogfennau a bydd angen eu tynnu unwaith iddynt gyrraedd yr Archif.

Peidiwch a chael eich temtio i aildrefnu'r dogfennau – mae'n bwysig eu cadw nhw yn eu trefn wreiddiol.

Mynnwch sgwrs gyda'n staff cyn taflu dim byd. Gall dogfennau nad sy'n ymddangos mor arwyddocaol a hynny ar yr olwg gyntaf droi allan i fod yn hynod bwysig.

Wrth ddod a dogfennau atom dewch â chymaint o wybodaeth gefndir ag y gallwch. Mae nodiadau wastad yn ddefnyddiol o ran pwy greodd y dogfennau, pam y cawsant eu creu, yr hyn a ddigwyddodd iddyn nhw dros y blynyddoedd, ac hefyd wybodaeth am bobl sydd wedi eu cynnwys yn y casgliad; mae hyn yn hynod wir am ffotograffau. Ond peidiwch ag ysgrifennu ar ddogfennau, yn enwedig mewn inc ac yn arbennig felly ar ffotograffau.

Byddai rhestr o gynnwys pob blwch yn ddefnyddiol dros ben os gallwch wneud hynny, ond nid yw'n hanfodol.

Ac os ydych yn trosglwyddo cofnodion digidol, peidiwch anghofio rhoi'r cyfrineiriau i ni ar gyfer unrhyw ddeunydd a amgryptiwyd!